


# CYNGOR TREF PORTHMADOG



## COFNODION CYFARFOD CYNGOR TREF PORTHMADOG A GYNHALIWDYD DRWY GYFRWNG ZOOM AR NOS FAWRTH, MAWRTH 9 2021

**Presennol :** Cynghorwyr : Gwilym Jones ( Cadeirydd), Selwyn Griffiths, Aled Griffith, Jason Humphreys, , Carol Hayes, Ian Jones ,Simon Brooks, Richard Williams, Stuart Nashir-Hallard, Dr Melfyn Edwards, Bethan Rees Jones, Llywelyn Rhys , Marian Roberts ( Clerc),  
**Ymddiheuriadau. :** Nia Jeffreys

### 143.3.21 Adroddiad y Cadeirydd

- Croesawyd pawb i'r cyfarfod a dechreuodd y Cadeirydd wrth ddweud ei fod wedi siarad efo Tony Burke ynglyn â threfnu gweithgaredd neu roi cyfraniad gan y Cyngor Tref er cof am y diweddard Glenda Burke. Gan fod Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd, yn agos iawn at galon Glenda credai mai dyma fyddai'r Elusen orau i elwa ar garedigrwydd y Cyngor. Roedd am i'r mater gael ei roi ar Rhaglen cyfarfod Ebrill 13 2021.
- Cyfeiriodd at y Polisiâu drafft ar y Rhaglen ac eglurodd fod y Clerc newydd yn awyddus i ddilyn y rheolau gweinyddol priodol i'r llythyren ac mai dull o gofnodi gweithdrefnau'r Cyngor Tref oedd hwn er lles y Clerc ac aelodau'r Cyngor Tref. Gan fod y Polisiâu laith, mynd yn ddi-bapur ac Adran 106 eisoes yn weithredol roedd hyn yn fodd i'w cadarnhau a'u derbyn. Byddant yn cael eu ymgorffori yn y Rheolau Sefydlog yn ystod y Cyfarfod Blynnyddol. Gadawyd trafodaeth am y Polisi Datganiadau i'r Wasg tan yn hwyrach yn y Rhaglen.
- Cofnodwyd fod Cyng Gareth Williams wedi cael ei anghymwyso ac wedi colli ei sedd ar Ward Orllewinol Porthmadog.
- Datgelodd y Cadeirydd nad oedd y Clerc wedi derbyn yr un enw ar gyfer cynrychioli'r Cyngor Tref ar Fwrdd Llywodraethol Ysgol Eifion Wyn. Penderfynwyd ei roi ar agenda y cyfarfod nesaf yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffith, Cyng Richard Williams yn eilio.

*Ymunodd y Cynghorwyr Stuart Nashir-Hallard, Dr Melfyn Edwards, Bethan Rees Jones, Llywelyn Rhys â'r cyfarfod*

### 144.3.21 Cadarnhau cywirdeb cofnodion

#### **1. Cyfarfod Rheolaidd Chwefror 9 2021**

**Penderfynwyd :-** Cafwyd yn gywir yn ôl cynnig Cyng Jason Humphreys, Cyng Selwyn Griffiths yn eilio.

#### **2. Cyfarfod Arbennig Pwyllgor Cyllid a Datblygu Chwefror 25 2021**

**Penderfynwyd :-** Cafwyd yn gywir yn ôl cynnig Cyng Jason Humphreys, Cyng Selwyn Griffiths yn eilio.

### 145.3.21 Cyfle i'r Cynghorwyr ddatgan diddordeb.

Cynghorydd Carol Hayes – Gohebiaeth rhif 5 – Grant y Ganolfan

Cynghorydd Simon Brooks – Gohebiaeth rhif 11 – Ymateb Julie James i lythyr Cyngor Nefyn

### Materion i'w dwyn gerbron :

#### **146.3.21 Cynnig Cyng Stuart Nashir-Hallard :- moderneiddio a gwneud ein Cyngor Tref yn fwy hygyrch**

Cynigiodd Cyng Stuart Nashir-Hallard fod angen moderneiddio delwedd y Cyngor a bod angen

apelio at ystod fwy eang o drigolion Porthmadog. Clywyd fel yr oedd papurau newydd yn colli eu hapêl ymysg y boblogaeth; fod gwerthiant papur bro Yr Wylan wedi disgyn yn sylweddol; ac mai drwy'r cyfryngau cymdeithasol oedd y ffordd fwyaf effeithiol o gysylltu â'r tô ifanc yn y gymdeithas. I'r perwyl hwnnw awgrymwyd mai creu cyfri Facebook swyddogol i'r Cyngor Tref fyddai'r ffordd ymlaen ond bod angen bod yn ofalus iawn wrth fonitro a chynnal y cyfri Facebook gan fod perygl iddo gael ei gamddefnyddio.

**Penderfynwyd** : y Clerc i holi Un Llais Cymru am ganllawiau ynglyn ag agor cyfri Facebook yn ôl cynnig Cyng Jason Humphreys , Cyng Carol Hayes yn eilio.

#### **147.3.21 Cynnig Cyng Simon Brooks :- adfer y Clwb leuenctid fel eitem sefydlog ar y rhaglen**

Eglurwyd mai da fyddai medru ail sefydlu'r Clwb leuenctid erbyn mis Hydref eleni ond bod angen amser i drefnu staff a lleoliad ar ei gyfer.

**Penderfynwyd** : cefnogi'r cynnig gyda Cyng Selwyn Griffiths yn eilio.

#### **148.3.21 Cyng Richard Williams :- Adnewyddu / uwchraddio ac ychwanegu at oleuadau'r Cei.**

Eglurwyd fel y cafodd y goleuadau eu tynnu i lawr er mwyn archwilio'r goleuadau a gwneud gwaith cynnal a chadw ar y polion. Roedd yn ddymuniaid gan Cyng Richard Williams weld y goleuadau yn cael eu hystyngiadau o amgylch ardal yr harbwr.

**Penderfynwyd** : Y Clerc i ysgrifennu at Adran Goleuadau Stryd Cyngor Gwynedd i holi beth ydi'r sefyllfa ynglyn â pherchnogaeth y goleuadau ac os oes cynlluniau i'w hystyngiadau, yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Richard Williams yn eilio.

#### **149.3.21 Cyng Aled Griffith :- Llythyru Cyngor Gwynedd i gwyno am gyflwr y llwybr o Fferm Penmount i'r Clwb Chwaraeon**

**Penderfynwyd** : ysgrifennu yn ôl y cynnig , Cyng Llywelyn Rhys yn eilio.

#### **150.3.21 Sedd Wag Ward Ddwyreiniol**

Nodwyd fod Cyng Jason Humphreys eisoes wedi rhannu'r hysbyseb am Sedd Wag ar Facebook ac nad oedd dyddiad cau ar yr hysbyseb gwreiddiol ( *Mae'r Clerc wedi cywiro hyn y hysbyseb mis Mawrth yn yr Wylan* )

**Penderfynwyd** : gadael y mater i'w drafod ar agenda y cyfarfod mis Ebrill a'r Cynghorwyr i ledaenu'r gair ar y cyfryngau cymdeithasol.

#### **151.3.21 Arafwch ymatebion gan Swyddogion Cyngor Gwynedd**

Mynegwyd anfodlonrwydd am arafwch gan rai o swyddogion Cyngor Gwynedd yn eu hymatebion i ohebiaeth a yrrwyd iddynt ar ran y Cyngor Tref. Roedd Cyng Jason Humphreys am i'r Clerc Ysgrifennu at y Cambrian News ynglyn â'u herthygl am Felin yr Wyddfa.

( *Ymddengys bellach fod y Clerc eisoes wedi derbyn ymateb i'w llythyr at Steffan Jones ynglyn â'r mater ers 4.2.21. – gweler Gohebiaeth* )

**Penderfynwyd** : y Clerc i ysgrifennu at Brif Weithredwr ac Adran Monitro Cyngor Gwynedd i holi beth yw'r drefn ynglyn ag ymateb i lythyrau yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Jason Humphreys yn eilio.

#### **152.3.21 Polisiau**

Roedd Cyng Simon Brooks yn dymuno cofnodi ei ddiolch ar ran y Cyngor Tref i'r Cyng Carol Hayes am ei chyfraniad gwerthfawr yn trosglwyddo gwybodaeth o'r Cyngor Tref ar dudalen newyddion Porthmadog yn Yr Wylan.

Trafodwyd y Polisi Drafft Datganiadau i'r Wasg.

**Penderfynwyd** : derbyn y Polisi Drafft a chytunwyd ar welliannau i'r geiriad sef :-

- Fod angen ychwanegu Is- Gadeirydd at Cadeirydd a Chlerc;
- Na ddylid enwi Cynghorwyr mewn adroddiad;

- Fod hawl gan y Cynghorwyr i siarad â'r Wasg fel unigolion ond nid ar ran y Cyngor Tref;
- Fod enw'r Clerc ar waelod yr adroddiad.

### **152.3.21 Gohebiaeth : Rhestr Aros am Ateb (copi ynghlwm).**

**Penderfynwyd** :- y Clerc i gynnwys copi o'r ddogfen gyfredol o Gohebiaeth Aros am Ateb er mwyn tanlinellu problem arafwch ymateb i lythyrau yn ei llythyr at y Swyddog Monitro yn ôl cynnig Cyng Jason Humphreys, Cyng Aled Griffith yn eilio.

### **Gohebiaeth :**

#### **154.3.21**

#### **Yr Arolygiaeth Gynllunio - Cais Cynllunio Bryncoed, Borth y Gest**

**Penderfynwyd** : derbyn y wybodaeth yn ôl cynnig Cyng Simon Brooks, Cyng Jason Humphreys yn eilio.

#### **155.3.21**

#### **Dŵr Cymru -Ymateb i lythyr 46.11.20,**

**Penderfynwyd** : y Clerc i yrru ymateb Dŵr Cymru i Adran Rheoli Llygredd, Cyfoeth Naturiol Cymru yn ôl cynnig Cyng Richard Williams, Cyng Ian Jones yn eilio.

#### **156.3.21 Gwenan Huws Tomos - Hysbysfwrdd Borth y Gest**

**Penderfynwyd** : y Clerc i ysgrifennu'n ôl i ddiolch am yr ymateb ac i ofyn yn garedig iddi chwilio eto pan ddaw'r Pandemig i ben yn ôl cynnig Cyng Simon Brooks, Cyng Selwyn Griffiths yn eilio.

#### **157.3.21 Dylan Rees - Ebst diolch Clwb Peldroed Porthmadog**

**Penderfynwyd** : derbyn y wybodaeth yn ôl cynnig Cyng Jason Humphreys, Cyng Selwyn Griffiths yn eilio.

#### **158.3.21 Keith Roberts - Grant y Ganolfan, ( Gadawodd Cyng Carol Hayes y cyfarfod. )**

**Penderfynwyd** : y Clerc i ysgrifennu at Gadeirydd y Ganolfan i egluro safbwynt Y Cyngor Tref sef bod Adran 97 o Ddeddf Elusennau 1993, sydd wedi bod mewn grym ers i Gyfansoddiad Y Ganolfan gael ei fabwysiadu yn 1972, yn golygu bod oblygiad cyfreithiol ar yr elusen i gofrestru pob aelod o'u Pwyllgor Rheoli (fel y corff sy'n gyfrifol o reolaeth o ddydd i ddydd Y Ganolfan) gyda'r Comisiwn Elusennau. Hefyd, bod y Cyngor Tref wedi derbyn tystiolaeth gref gan y Comisiwn Elusennau sy'n cadarnhau hyn ac nid enwau'r Ymddiriedolwyr Daliad sydd i fod ar y Gofrestr, fel mae'n ymddangos yn bresennol – yn ôl cynnig Cyng Jason Humphreys, Cyng Richard Williams yn eilio.

#### **159.3.21 Howard Huws - Safle Treftadaeth y Byd**

**Penderfynwyd** : derbyn y wybodaeth yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Aled Griffith yn eilio.

#### **160.3.21 YGC - Gosod sgrin CGI**

**Penderfynwyd** : derbyn y wybodaeth yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Melfyn Edwards yn eilio.

#### **161.3.21 Nesta Jones - Llythyr diolch Eisteddfod yr Urdd**

**Penderfynwyd** : derbyn y wybodaeth yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Gwilym Jones yn eilio

#### **162.3.21 Dafydd Meirion Jones - Dŵr ar y Cob**

**Penderfynwyd** : derbyn y wybodaeth yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Jason Humphreys yn eilio.

#### **163.3.21 Alun Roberts - Graeanu Morfa Lodge,**

**Penderfynwyd** : derbyn y wybodaeth yn ôl cynnig Cyng Jason Humphreys, Cyng Selwyn Griffiths yn eilio

**164.3.21 Julie James - Ymateb i ebost (llythyr Nefyn) 15.2.21** ( Gadawodd Cyng Simon Brooks y cyfarfod.)

**Penderfynwyd** : derbyn y wybodaeth yn ôl cynnig Cyng Jason Humphreys, Cyng Richard Williams yn eilio.

**165.3.21 Amanda Murray - Ymateb i ebost 13.2.21**

**Penderfynwyd** : derbyn y wybodaeth yn ôl cynnig Cyng Jason Humphreys, Cyng Aled Griffith yn eilio

**166.3.21 Dilwyn Jones - Cwyno am sŵn gwylanod**

**Penderfynwyd** : y Clerc i ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i holi faint gostiodd o i drefnu cael hebog i wasgaru'r gwylanod oddiar dir Ysgol Eifion Wyn yn ôl cynnig Cyng Jason Humphreys, Cyng Melfyn Edwards yn eilio.

**167.3.21 Amanda Murray - Cytundeb Toiledau Cyhoeddus 2021-22,**

Roedd Cyng Jason Humphreys yn dymuno trafod toiledau Porthmadog a thoiledau Borth y Gest ar wahân gan fod toiledau'r Stryd Fawr yn un o'r 8 sydd yn gorfod cael eu cadw ar agor oherwydd iddynt wasanaethu gyrrwyr a theithwyr ar y bysiau.

**Penderfynwyd** : peidio a chyfrannu at gostau toiledau Stryd Fawr Porthmadog yn ôl cynnig Cyng Jason Humphreys, Cyng Richard Williams yn eilio.

Eglurodd Cyng Simon Brooks fod sefyllfa toiledau cyhoeddus Borth y Gest yn wahanol oherwydd nad oedd toiled arall ar gael i wasanaethu ymwelwyr a cherddwyr ar Lwybr yr Arfordir.

**Penderfynwyd** : rhoi cefnogaeth i doiledau Borth y Gest yn ôl cynnig Cyng Simon Brooks , Cyng Bethan Rees Jones yn eilio.

**168.3.21 Dŵr Cymru - Carthffosiaeth strydoedd cefn**

**Penderfynwyd** : derbyn y wybodaeth yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Richard Williams yn eilio.

**169.3.21 Rhian Wyn Williams - Safle bws Tesco**

Roedd Cyng Selwyn Griffiths yn cynnig derbyn y wybodaeth ond cynigiodd Cyng Aled Griffith welliant ar y cynnig ,gyda Cyng Jason Humphreys yn eilio, sef ymateb i'r llythyr a holi yn yr ymateb pryd fydd y gwaith yn cael ei gyflawni yn Nhremadog gan fod y gwaith wedi ei ddechrau ers mis Ionawr 2021.

**Penderfynwyd** : derbyn y gwelliant.

### **170.3.21 Materion Ariannol :**

#### **Derbyniadau :**

HSBC	Llog Banc Chwefror 2021	£ 00 .29
------	-------------------------	----------

#### **Biliau i'w talu :**

#### **Awdurdodwyd y taliadau canlynol:-**

1	Marian Roberts	LLinell Ffôn a Wê	£ 44.99
2	Marian Roberts	Inc i'r printer	£ 29.56
3	Marian Roberts	Costau teithio Chwefror 2021	£ 9.31
4	Marian Roberts	Cyflog Clerc Chwefror 2021	£ 603.20
5	Cyllid a thollau ei Mawrhydi	Treth incwm cyflog Clerc Chwefror 2021	£ 150.80
6	Marian Roberts	24 stamp ail ddsbarth	£ 15.84
7	Cyng Richard Williams	Lwfans Cynghorydd 2020-2021	£ 120.00

8	Cyng Simon Brooks	Lwfans Cynghorydd 2020-2021	£ 120.00
9	Cyng Llywelyn Rhys	Lwfans Cynghorydd 2020-2021	£ 120.00
10	Cyng Bethan Rees Jones	Lwfans Cynghorydd 2020-2021	£ 120.00
11	Cyng Alwyn Gruffydd	Lwfans Cynghorydd 2020-2021	£ 120.00
12	Cyng Stuart Nashir-Hallard	Lwfans Cynghorydd 2020-2021	£ 120.00
13	Cyng Jason Humphreys	Lwfans Cynghorydd 2020-2021	£ 120.00
14	Marian Roberts	Ad-daliad am gopi o The Clerk's Manual SLCC	£ 52.30
15	Turnock	Bylbiau ar gyfer goleuadau Nadolig	£ 157.20
16	Cyngor Gwynedd	Gosod a chlirio coed Nadolig	£ 2,535.50
17	Cyngor Gwynedd	Torri llwybrau	£ 3,461.54
18	Cyllid a thollau ei Mawrhydi	Treth Incwm 7 Cynghorydd ( 7 x £30)	£ 210.00

( Mae copi o bob sic ar gael i'w harchwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol)

### **171.3.21 Ceisiadau Cynllunio**

#### **(a) Rhif Cais.: C21/0182/44/LL**

Lleoliad : Cefnau 42 Heol Dulyn, Tremadog, LL49 9RN

Bwriad : Codi ty deulawr, tri lloft

**Penderfynwyd** : rhoi amod tai fforddiadwy Cymal 106 arno

#### **(b) Rhif Cais.: C21/0186/44/HY**

Lleoliad: 11-12 Britannia Terrace , Porthmadog, LL49 9nb, LL49 9NB

Bwriad : Codi arwyddion wedi'u goleuo

**Penderfynwyd** : Dim gwrthwynebiad

#### **(C)Rhif Cais.: C21/0170/44/LL**

Lleoliad: 1 Stryd Lombard, Porthmadog, LL49 9AP

Bwriad: Newid defnydd cyn swyddfa ar lawr daear ac is lawr yr adeilad i ffurfio rhan o uned wyliau presennol sydd ar y llawr cyntaf ac ail.

**Penderfynwyd** : : rhoi amod tai fforddiadwy Cymal 106 arno

#### **(ch)Rhif Cais.: C21/0187/44/DT**

Lleoliad: Bro Gwylan Heol Merswy, Borth Y Gest, Porthmadog, LL49 9UF

Bwriad: Dymchwel modurdy presennol a chodi estyniad deulawr ochor gyda balconïau

**Penderfynwyd** : Dim gwrthwynebiad

Daeth y cyfarfod i ben am 8.40 y.h.

*Marian Roberts (Clerc/Clerk), 29 Maes Gerddi, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9LE*  
*Ffôn / Tel : 01766 513709*  
*E-bost/ e-mail : [clercyngtreport@gmail.com](mailto:clercyngtreport@gmail.com)*